**13 Hydref 2025**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Pa mor effeithiol y mae'r heddlu'n cofnodi troseddau? Adroddiad sbotolau PEEL**

Croesawaf yr adroddiad ar safonau cofnodi troseddau, sy'n fater y mae'r heddlu'n parhau i anelu i ddal gafael arno. Rwyf wedi gweld Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd camau sylweddol i fynd i'r afael â'i berfformiad yn y maes hwn dros y blynyddoedd diweddar.

Nodaf isod fy syniadau a'r sicrwydd rwyf wedi'i dderbyn wrth y Prif Gwnstabl mewn perthynas â rhai o'r themâu allweddol a'r argymhellion o fewn yr adroddiad thematig hwn.

**Cofnodi troseddau treisgar**

Mewn cyfarfod o'm Bwrdd Perfformiad Strategol ym mis Gorffennaf 2025, adroddodd Heddlu Dyfed-Powys bod ei gydymffurfiaeth gyffredinol o ran cofnodi troseddau ar gyfer 1 Mehefin 2024 i 31 Mawrth 2025 yn 94%, gyda Thrais yn Erbyn y Person yn 94% a throseddau rhywiol yn 89.9%. Mae perfformiad wedi bod yn gwella'n raddol yn ystod yr amser hwn, fodd bynnag, mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i anelu i gyrraedd y targed o 95+% a osodwyd gan y Swyddfa Gartref.

**Amseroldeb cofnodi troseddau**

Mae cofnodi troseddau'n amserol (o fewn 24 awr) yn faes y mae dal angen i Heddlu Dyfed-Powys ei wella. Mae'n parhau i fod yn destun craffu mewn sawl bwrdd llywodraethu i fonitro tueddiadau ac mae system fonitro wythnosol wedi'i sefydlu. Mae canllawiau wedi'u rhannu a'u trafod mewn cyfarfodydd Uned Reoli Sylfaenol misol, sydd wedi arwain at arwyddion o welliant o wythnos i wythnos.

Mae dadansoddiad gan Gofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau'r Heddlu wedi dangos bod amseroldeb cyffredinol Heddlu Dyfed-Powys wedi gwella o 30.9% mewn blwyddyn. Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 – 23 Medi 2025, cofnodwyd 75.8% o droseddau o fewn 24 awr, o'i gymharu â dim ond 44.9% ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Mae data a roddwyd i'm swyddfa drwy fy nghyfarfodydd perfformiad chwarterol wedi dangos bod y gwelliant hwn wedi'i gynnal, gyda chydymffurfiaeth dros 73% yn gyson ar gyfer y 5 mis hyd 31 Mawrth 2025.

**Arweinyddiaeth, trosolwg a chraffu**

Mae Cofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau'r Heddlu'n mynychu sawl bwrdd llywodraethau sy'n ymwneud ag amseroldeb ac arferion cofnodi troseddau. Mae hyn yn sicrhau bod negeseuon yn cael eu lledaenu ymhlith yr holl feysydd busnes

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

sy'n gallu adrodd yn ôl wrth eu timoedd unigol er mwyn sicrhau bod staff yn deall eu rôl o ran cofnodi troseddau.

Mae Cofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau'r Heddlu wedi llunio amserlen archwilio gadarn sy'n seiliedig ar risg i dargedu nifer bach o feysydd allweddol bob mis am gyfnod o dri mis. Mae hyn yn galluogi ymyriadau mewn perthynas â hyfforddiant ac arweiniad mewn meysydd a nodwyd. Cynhyrchir meintiau sampl misol sy'n ystadegol ddibynadwy (gyda 95% o ysbaid hyder a ffin camgymeriad o 3%) ar gyfer pob un o'r meysydd allweddol a nodir yn yr amserlen archwilio. Adolygir y data hwn gan dîm arbenigol o archwilwyr trosedd o fewn y Tîm Archwilio Troseddau, gan gynnwys Cofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau'r Heddlu a Dirprwy Gofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau'r Heddlu. Mae'r data canlyniadol yn cyfrannu at Ddangosfwrdd Power-Bi sy'n dangos troseddau a gollwyd yn ddyddiol. Adolygir hyn yn fanwl mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol yn lleol ac ar draws yr heddlu, gyda'r targed arfaethedig o leihau troseddau a gollir.

Mae fy swyddfa'n cynnal goruchwyliaeth fanwl o gofnodi troseddau drwy ddiweddariadau rheolaidd gan Gofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau'r Heddlu a chraffu ar berfformiad yn fy Mwrdd Perfformiad Strategol chwarterol.